# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 4**

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR MEWN LLEOEDD HEBLAW SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 2**

Y WEITHDREFN AR GYFER CODI'R DRETH

**51 Talu treth**

(1) Rhaid i berson y dyroddir hysbysiad codi treth iddo dalu'r swm o dreth a godir gan yr hysbysiad.

(2) Rhaid talu'r dreth cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir yr hysbysiad.

(3) Os dyroddir hysbysiadau codi treth i fwy nag person mewn cysylltiad â'r un gwarediad trethadwy, mae'r holl bersonau hynny'n atebol ar y cyd ac yn unigol am y swm o dreth a godir ar y gwarediad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 51 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 51 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 51.